**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

19 Mawrth 2024

Annwyl Julie

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Gosodwyd ein hadroddiad 14 Mawrth yn cwmpasu Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad (y Memorandwm) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil (Memorandwm Rhif 2).

Yn y Memorandwm, ar oblygiadau ariannol rydych yn nodi:

> *79. Mae'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth sylweddol mewn perthynas â'r Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig, a fydd yn effeithio ar ei bwerau a'i lwyth achosion. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith bosibl ar y tribiwnlys ac i ddeall beth fydd goblygiadau ariannol yr effaith honno.*
>
> *80. Mae Llywodraeth y DU wedi paratoi Asesiad Effaith ar gyfer y Bil sy'n cwmpasu goblygiadau ehangach y Bil yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys yr effeithiau ar Gymru. Rwyf ar ddeall y caiff hwn ei gyhoeddi cyn hir.*

Ym Memorandwm Rhif 2, rydych yn ailadrodd paragraff 79 o'r Memorandwm ym mharagraff 55 ac, ym mharagraff 56, rydych yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a nodir ym mharagraff 80 o'r Memorandwm drwy ddarparu linc i asesiad effaith Llywodraeth y DU, sy'n ymdrin â'r effeithiau ar Gymru.

Gwnaethoch osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil (Memorandwm Rhif 3) ar 4 Mawrth 2024. Ym Memorandwm Rhif 3, ym mharagraff 56, rydych yn ailadrodd bod "gwaith yn mynd rhagddo i asesu'r effaith bosibl ar y tribiwnlys ac i ddeall beth fydd goblygiadau ariannol yr effaith honno."

A fyddech cystal â rhoi gwybod inni:

i. pryd yr ydych yn bwriadu cyhoeddi eich asesiad o effaith bosibl y Bil ar y Tribiwnlys Prisio Lesddaliadau datganoledig, gan gynnwys y goblygiadau ariannol;

ii. pwy a asesodd effeithiau'r Bil ar Gymru er mwyn darparu gwybodaeth i'w chynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU ac (os yw'n berthnasol) a ymgynghorwyd â chi;

iii. sut mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn wahanol i'r gwaith a wneir ar wybodaeth i'w chynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU;

iv. pam na chynhaliwyd asesiad Llywodraeth Cymru mewn pryd i gael ei gynnwys yn asesiad effaith Llywodraeth y DU, fel nad yw ar gael ar hyn o bryd i graffu arno yn y ddeddfwrfa lle bydd y Bil yn cael ei ystyried ac yn destun gwelliant.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 17 Ebrill 2024.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd